

- 1. Cyngor Dinas Casnewydd**
- 2. Strategaeth Cyfranogiad**
- 3. 2022-2026**

4. Rhagair

5. Rwy'n falch iawn o gyflwyno'r Strategaeth Cyfranogiad gyntaf hon yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i'r egwyddor o wneud penderfyniadau cyfranogol, ac i gefnogi trigolion i gymryd rhan weithredol mewn prosesau democrataidd.
6. Mae'r ymrwymiad hwn i ymgysylltu â chymunedau wedi'i gynnwys yn y strategaeth, ac fe'i hadlewyrchir yn y camau a gymerwyd i fod yn agored ac yn ymatebol i anghenion dinasyddion.
7. Yn ddiweddar, rydym wedi gwneud buddsoddiadau mawr mewn dulliau cyfranogol drwy ymrwymiad i gyllidebu cyfranogol, a fydd yn grymuso dinasyddion a sefydliadau cymunedol i gefnogi prosiectau a fydd yn mynd i'r afael ag effeithiau Covid-19. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod ar flaen y gad o ran defnyddio technoleg Wi-Fi ar fysus lleol er mwyn ymgysylltu â mwy o bobl ac rydym bellach wedi cyflwyno system debyg yn ein hadeiladau cyhoeddus.
8. Mae gennym hanes cryf o weithio mewn partneriaeth, yn aml mewn amgylchiadau heriol, sy'n dangos manteision cydweithio agos, ac rydym yn canolbwyntio ar gyflawni gwelliannau hirdymor yn lles ein cymunedau.
9. Rydym yn gwneud ein prosesau democrataidd yn fwy tryloyw a hygyrch. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi canllaw i'r cyfansoddiad a gweithredu'r cyfleusterau sydd eu hangen ar Gyngorwyr i gymryd rhan mewn cyfarfodydd y Cyngor o unrhyw leoliad. Bydd hyn yn creu mwy o hyblygrwydd o ran cyfranogiad democrataidd ac yn annog trigolion i ystyried cynrychioli eu cymunedau fel cynghorwyr etholedig.
10. Mae'r strategaeth hon yn cadarnhau ymroddiad y Cyngor i wrando ar drigolion ac i gydweithio â nhw, a'i nod yw grymuso dinasyddion a chymunedau ymhellach i ddweud eu dweud ar yr hyn sy'n bwysig i'w hardal leol.

11. Y Cynghorydd Jane Mudd, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd

12. Cyflwyniad

13. Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad sy'n nodi'r ffyrdd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses y Cyngor o wneud penderfyniadau. Mae'r Strategaeth hon yn ategu'r Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd a gafodd ei chymeradwyo a'i mabwysiadu gan y Grŵp Gwella Craffu yn 2015 a'i diweddarau yn 2017.

Gan fod cyfranogiad y cyhoedd yn agwedd heriol ar fusnes y Cyngor, disgwylir y bydd y strategaeth hon yn esblygu ac yn gwella dros amser wrth i fudd profiad ac arfer da ddod i'r amlwg ac wrth i dechnolegau newydd ddod ar gael.

14. Mae'r cynllun strategol hwn yn amlinellu blaenoriaethau Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer annog pobl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r strategaeth hon yn rhedeg am bedair blynedd, gan ddechrau yn 2022 a gorffen yn 2026. Yn y strategaeth hon rydym wedi ceisio egluro sut y bydd ein hamcanion o ran cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl yng Nghasnewydd. O fewn pob amcan, rydym wedi nodi canlyniadau clir yr ydym yn gweithio tuag atynt, a nifer o gamau gweithredu a fydd yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r canlyniadau hynny. Gallwch hefyd weld sut y byddwn yn ymgysylltu â gwahanol grwpiau.
15. Bydd amcanion y strategaeth yn sail i'r cynlluniau gwasanaeth ym mhob adran y Cyngor. Caiff perfformiad yn erbyn cynlluniau gwasanaeth ei adolygu'n rhan o'r trefniadau llywodraethu presennol, drwy Bwyllgorau Craffu a'r Cabinet. Creffir ar berfformiad yng nghanol y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn.

16. Ein Dyletswyddau o ran Cyfranogiad a Pholisïau Cysylltiedig

17. Ein nod yw bod yn agored ac yn ymatebol i anghenion dinasyddion a chymunedau. Mae hyn yn golygu cynnwys pobl leol mewn prosesau cyfranogol, lle gall trigolion ddylanwadu ar bolisi a gwasanaethau a'u siapio. Mae cyfranogiad yn ymwneud â rhannu penderfyniadau gyda'r rheiny y mae'r penderfyniadau hynny'n effeithio arnynt, a rhaid iddo fod yn rhan annatod o'n gwaith. Nid yw'n ymwneud â rhoi i grwpiau neu unigolion beth bynnag y maent yn gofyn amdano sy'n digwydd yn gyffredinol â chyfyngiadau, gan gynnwys lles ac arian. Fodd bynnag, dylai fod gan drigolion rywfaint o bŵer o ran gwneud penderfyniadau bob amser fel eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu deall. Ein nod bob amser yw dweud yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o ganlyniad i glywed barn trigolion, a pham.
18. Mae cyfranogiad yn cefnogi trigolion i 'ymwneud yn weithredol â llunwyr polisi a chynllunwyr gwasanaethau o gamau cynnar cynllunio ac adolygu polisïau a gwasanaethau'. Gall cyfranogiad gynnwys ystod eang o wahanol ddulliau a thechnegau, a gall y Cyngor neu drigolion ei awgrymu.

-
19. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod nifer o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran cyfranogiad. Sef;
 20. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr.
 21. Rhannu gwybodaeth am sut i ddod yn Aelod etholedig, neu'n Gyngorydd, ac am yr hyn y mae rôl y Cyngorydd yn ei gynnwys.
 22. Sicrhau y gellir cael gafael haws ar wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu a gaiff eu gwneud gan y Cyngor.
 23. Cynnig a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau.
 24. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion i Gynghorwyr.

25. Deddfwriaeth a pholisi perthnasol

25.1. Cynllun Corfforaethol

25.2. Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Casnewydd yn Un

25.2.1. [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 \(newport.gov.uk\)](http://newport.gov.uk)

25.2.2. [Dweud eich dweud \(newport.gov.uk\)](http://newport.gov.uk)

25.3. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (2021)

25.3.1. [Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) \(2021\)](#)

25.4. Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru

25.4.1. [Llywodraeth Cymru – Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024](#)

25.4.2. [Llywodraeth Cymru \(Senedd yn ôl yr adroddiad\) Arolwg Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, Tach 2018](#)

25.4.3. [Cynllun Gweithredu: Blwyddyn 1 - 2020-2021 - Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru \(llyw.cymru\)](#)

25.5. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 12 sy'n ymwneud â pharchu barn y plentyn)

25.5.1. [UNCRC summary-1 1.pdf \(unicef.org.uk\)](http://unicef.org.uk)

25.6. Participation Cymru – Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd

25.7. Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 - (yn gosod dyletswyddau i gynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt)

25.8. Safonau [Cyfranogiad](#) Cenedlaethol yng Nghymru – (mewn perthynas â chyfranogiad plant a phobl ifanc)

25.8.1. Ymgysylltu - CGGC

25.9. Involve – Ymchwil Cyfranogiad y Cyhoedd

25.9.1. Tudalen we Involve ar effaith cyfranogiad

26. Ein Hamcanion

27. F h i f	28. Dyletswydd Ddeddfwriaethol	29. Nod	30. Yr hyn sydd eisoes ar waith gennym i adeiladu arno;	31. Camau Gweithredu	32. <i>Mesurau</i>
33. 1	34. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr.	35. Nod yr amcan hwn yw rhannu gwybodaeth am swyddogaethau a gwasanaethau'r Cyngor fel bod trigolion yn cael gwybod amdanynt. Mae rhannu gwybodaeth am swyddogaethau'r Cyngor yn cefnogi'r cyhoedd i dreulio ac	36. Cynllun Corfforaethol a strategaethau cysylltiedig sydd ar gael i'r cyhoedd 37. Gwefan y Cyngor 38. Modern.Gov - adran democratiaeth ar y wefan lle gall trigolion weld agendâu a chofnodion cyfarfodydd, neu chwilio am benderfyniadau 39. Cylchlythyr Materion Casnewydd a anfonir i bob aelwyd yng Nghasnewydd ac sydd ar gael ar-lein 40. Ffrydio cyfarfodydd y Cyngor yn fyw i'r cyhoedd eu gwyllo. Gellir gweld agendâu a chofnodion ar-lein. 41. Cyfarfodydd y Cyngor 42. Cyfarfodydd y Cabinet 43. Ymgynghoriadau ar y Gyllideb 44. Cyfryngau Cymdeithasol	45. Cyhoeddi Canllaw ar y Broses Ddemocrataidd 46. Gwella gwefan y Cyngor fel ei bod yn haws cael gafael ar wybodaeth 47. Sicrhau bod blaengynllun y Cyngor yn cefnogi ymgysylltu â'r cyhoedd drwy fod yn hygyrch, yn amserol ac yn hawdd ei ddarllen	48. Nifer y bobl sy'n gwyllo cyfarfodydd gan gynnwys rhai byw ac ar YouTube 49. Data ar nifer y bobl sy'n defnyddio'r wefan 50. Arolwg boddhad ar y wefan

		ystyried gwybodaeth cyn y gofynnir iddynt roi eu barn neu eu hargymhellion .			
51. F h i f	52. Dyletswydd Ddeddfwriaet hol	53. Nod	54. Yr hyn sydd eisoes ar waith gennym i adeiladu arno;	55. Camau Gweithredu	56. Mesurau
57. 2	58. Rhannu gwybodaeth am sut i ddod yn Aelod etholedig, neu'n Gynghorydd, ac am yr hyn y mae rôl y Cynghorydd yn ei gynnwys.	59. Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar annog pobl i ddod yn Gynghorwyr, gan gynrychioli'r bobl yn eu cymuned eu hunain a gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae'n bwysig bod Cynghorwyr fel y bobl sy'n eu hethol, fel y gallant gynrychioli'r	60. Gwefan; Tudalennau'r Cyngor a Democratiaeth 61. Tudalen 'Dod yn Gynghorydd' https://www.newport.gov.uk/cy/Council-Democracy/Become-a-councillor/Become-a-councillor.aspx 62. Cwricwlwm hyfforddi llawn i gefnogi Aelodau - sefydlu a thrwy gydol eu hamser yn gwneud y swydd 63. Seminarau Rheolaidd i Aelodau i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ac yn cael eu cynnwys ynddynt 64. Caiff y lwfansau i Aelodau eu postio ar wefan y Cyngor 65. Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion; Arweinyddiaeth, Llywodraethiant a Chynhwysiant.	69. Gweithredu cyfarfodydd hybrid sy'n galluogi Cynghorwyr i fynd i gyfarfodydd y Cyngor ac i gymryd rhan ynddynt o unrhyw leoliad sydd â chysylltiad â'r rhyngwrwyd 70. Sicrhau bod gwybodaeth i ddarpar gynghorwyr ar gael ac yn addas at y diben;	71. Data cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer Aelodau etholedig

		<p>holl safbwyntiau gwahanol yn y gymuned a gwneud penderfyniadau sydd o fudd i bawb.</p>	<p>Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd arweinyddiaeth gref a llywodraethiant cryf o ran materion cydraddoldeb, sy'n sicrhau prosesau monitro cadarn ac ymgysylltiad ystyrion rheolaidd â rhanddeiliaid</p> <p>66. Disgrifiadau o rolau Aelodau yn rhan o'r Cyfansoddiad</p> <p>67. Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am fod yn Gynghorydd, gan gynnwys dolenni i wybodaeth bellach</p> <p>68.</p>		
72.	73. Dyletswydd Ddeddfwriaethol	74. Nod	75. Yr hyn sydd eisoes ar waith gennym i adeiladu arno;	76. Camau Gweithredu	77. Mesurau
78.	79. Sicrhau y gellir cael gafael haws ar wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu a gaiff eu gwneud gan y Cyngor.	<p>80. Mae'r amcan hwn yn ymwneud ag annog a galluogi pawb yr effeithir arnynt i gymryd rhan, os ydynt yn dewis gwneud hynny.</p> <p>81. Caiff pobl y mae problem neu newid yn</p>	<p>82. Gwefan</p> <p>83. Modern.Gov - adran democratiaeth ar y wefan lle gall trigolion weld agendâu a chofnodion cyfarfodydd, neu chwilio am benderfyniadau</p> <p>84. Ymgynghoriad ac arolygon</p> <p>85. Cylchlythyr Materion Casnewydd a anfonir i bob aelwyd yng Nghasnewydd ac sydd ar gael ar-lein</p> <p>86. Mae Bwletin One Newport Partnership yn rhoi diweddariadau</p>	<p>93. Parhau i symud tuag at ddulliau cyfranogol o ymgysylltu sy'n grymuso dinasyddion ac yn rhoi penderfyniadau yn nwylo cymunedau ac unigolion e.e. ymarferion cyllidebu cyfranogol.</p> <p>94. Adeiladu ar y defnydd o dechnoleg i gynyddu cyrhaeddiad ymgysylltu e.e. defnyddio wi-fi cyhoeddus i hyrwyddo arolygon.</p>	<p>95. Nifer y bobl sy'n gwyllo cyfarfodydd gan gynnwys rhai byw ac ar You Tube</p> <p>96. Cyfraddau cyfranogi mewn ymgynghoriadau ac arolygon</p> <p>97. Canran y bobl sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (Arolwg Cenedlaethol Cymru a data lleol)</p>

		<p>effeithio arnynt eu cynnwys mewn cyfleoedd i ymgysylltu'n unigolyn neu'n rhan o grŵp neu gymuned, gyda'u barn yn cael ei pharchu a'i gwerthfawrogi .</p>	<p>rheolaidd i alluogi tryloywder, ymgysylltiad a chyfranogiad</p> <p>87. Mae'r Cyngor yn defnyddio data i lywio cynigion, gan gynnwys data o ffynonellau allanol a phartneriaid lle bo hynny'n briodol.</p> <p>88. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i rannu gwybodaeth am benderfyniadau ac i ymgysylltu â thrigolion yn fwy effeithiol.</p> <p>89. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i sicrhau bod gwybodaeth am benderfyniadau'n cael ei rhannu, a bod amrywiaeth o safbwyntiau'n cael eu clywed.</p> <p>90. Mae'r Cyngor yn defnyddio mecanweithiau i ymgysylltu â grwpiau difreintiedig a grwpiau buddiannau cydraddoldeb e.e. Fforwm 50+, Cyngor Ieuenctid Casnewydd, fforymau Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, grwpiau anabled ac ati.</p> <p>91. Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n rheolaidd â dinasgyddion ar benderfyniadau corfforaethol allweddol e.e. y gyllideb a'r cynllun ariannol tymor canolig</p> <p>92. Mae gan y Cyngor fecanweithiau rheolaidd i ymgysylltu â'r cyhoedd gan gynnwys: y panel dinasgyddion, technoleg arolwg wi-fi ar fysus a</p>		
--	--	---	--	--	--

			thechnoleg wi-fi mewn adeiladau cyhoeddus		
98. F h i f	99. Dyletswydd Ddeddfwriaet hol	100. Nod	101. Yr hyn sydd eisoes ar waith gennym i adeiladu arno;	102. Camau Gweithredu	103. Mesurau
104.	105. Cynnig a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys deisebau, sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau. 106. Cadarnha u'r trefniadau wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud, at ddibenion dyletswydd y Cyngor yn adran 62 o Fesur 2011 (dwyn barn y cyhoedd i sylw	107. Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar gyfranogiad, sy'n llawer mwy na chael barn pobl ar fater penodol. Mae cyfranogiad yn ymwneud ag annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgaredd au cymunedol a gwleidyddol gan ddefnyddio dulliau ymgysylltu gwahanol.	108. Gwefan 109. Ffurflenni digidol 110. Polisi Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion 111. Ymgynghoriad ac arolygon 112. Cylchlythyr Materion Casnewydd a anfonir i bob aelwyd yng Nghasnewydd ac sydd ar gael ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ymgynghoriadau, arolygon a sut i gysylltu â'r Cyngor i roi adborth. 113. Modern.Gov - adran democratiaeth ar y wefan lle gall trigolion weld agendâu a chofnodion cyfarfodydd, neu chwilio am benderfyniadau 114. Mae One Newport Partnership yn hwyluso adborth a mewnbwn gan y Panel Dinasyddion, gyda phlant a phobl ifanc a'r cyhoedd yn gyffredinol. 115. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i sicrhau bod gwybodaeth am benderfyniadau'n	118. Cynllun Deisebau; <i>angen ei ddatblygu</i> 119. Adrodd yn rheolaidd ar sylwadau a dderbyniwyd gan drigolion 120. Datblygu gwell dealltwriaeth o ddemograffeg trigolion sy'n rhoi adborth yn rheolaidd, fel y gellir nodi unrhyw fylchau mewn cynrychiolaeth. 121. Adolygu a diweddarau'r Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth Graffu, yn enwedig mewn perthynas â chyfarfodydd hybrid. 122. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y Strategaeth drwy Adroddiad Hunanasesu Blynyddol y Cyngor	123. Nifer y sylwadau, cwynion a chanmoliaethau a dderbynnir 124. Cyfraddau cyfranogi mewn ymgynghoriadau ac arolygon 125. Nifer y bobl sy'n gwyllo cyfarfodydd ar-lein 126. Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymwneud â thrigolion sydd wedi rhoi adborth 127. Lefelau cyfranogi ac ymgysylltu o ran y broses graffu; 127.1. Nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau 127.2. Nifer y bobl sy'n gwyllo cyfarfodydd gan gynnwys rhai byw ac ar YouTube

	<p>pyllgorau trosolwg a chraffu).</p>		<p>cael ei rhannu, a bod amrywiaeth o safbwyntiau'n cael eu clywed.</p> <p>116. Cynllun Deisebau (<i>i'w ddatblygu</i>)</p> <p>117. Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth Graffu</p>		
128.	129. Dyletswydd Ddeddfwriaethol	130. Nod	131. Yr hyn sydd eisoes ar waith gennym i adeiladu arno;	132. Camau Gweithredu	133. Mesurau
134.	135. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion i Gynghorwyr.	136. Mae'r amcan hwn yn cydnabod bod y cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn fan cyhoeddus pwysig, lle mae cynghorwyr yn rhannu gwybodaeth wleidyddol ac yn ymgysylltu â chynghorwyr eraill, swyddogion cymorth a	137. Sianelu Cyfryngau Cymdeithasol 138. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Canllaw i Gynghorwyr Newydd - 'Gwella Dinasyddiaeth Ddigidol – Ymchwil ac Arfer Gorau'	139. Sefydlu a Hyfforddi Aelodau 140. Seminarau i Aelodau	141. % o ran cwblhau modiwlau hyfforddi 142. % o ran presenoldeb mewn Seminarau i Aelodau

		<p>thrigolion. Mae gan y cyfryngau cymdeithasol y potensial i wella democratiaeth drwy hwyluso sgyrsiau mwy, mwy rhydd a mwy agored a thrwy alluogi cynrychiolwyr i gyfathrebu'n uniongyrchol â dinasyddion. Er y gall y cyfryngau cymdeithasol fod yn arf defnyddiol ar gyfer ymgysylltu, mae dulliau cyfathrebu amgen hefyd yn ddilys.</p>			
--	--	--	--	--	--

143. Trefniadau Partneriaeth

144. Casnewydd yn Un yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) y ddinas, lle mae sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector lleol yn gweithio ynghyd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y ddinas.

145. Sefydlwyd BGCau gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ([Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol](#)) ac maent yn gweithio gyda'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn cof ac i gyflawni'r saith nod lles.

146. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ystyried y pum ffordd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus eu gweithredu i ddangos eu bod yn cymhwyso'r egwyddor.

147. Maer aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghasnewydd a'r rhanbarth ehangach.

148. Mae BGC Casnewydd yn Un wedi ymrwymo i geisio barn trigolion ar yr holl bolisiau a phenderfyniadau a wneir, ac ar sut y gallwn wneud gwelliannau yn y dyfodol.

149. Er mwyn cefnogi'r BGC a'i bartneriaid i fabwysiadu dull cydgysylltiedig o ymgysylltu ac o annog cymunedau lleol i gymryd rhan, cynhyrchwyd Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Casnewydd yn Un.

150. Cynnwys Casnewydd yw'r enw ar banel o drigolion Casnewydd sy'n derbyn arolygon rheolaidd gyda'r nod o gynrychioli barn y bobl yn y ddinas. Sefydlwyd y panel gan Gyngor Dinas Casnewydd yn 2002 ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â phartneriaid y Cyngor drwy Gasnewydd yn Un.

151. Nod y panel yw cynnig llwyfan i fesur barn trigolion ar wasanaethau lleol yn gywir.

152. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ni ddeall pam mae barn pobl yn newid ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymchwil sy'n canolbwyntio'n fwy ar wasanaethau penodol.

153. Ar hyn o bryd mae gan y panel tua 700 o aelodau a gall unrhyw un sy'n byw yng Nghasnewydd ymuno, gan gynnwys pobl ifanc.

154. Anfonir tua phedwar cwestiwn i'r Aelodau yn ystod y flwyddyn a gofynnir iddynt am eu barn a'u hawgrymiadau ar wasanaethau cyfredol sy'n effeithio ar y ddinas a'i thrigolion.

155. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y BGC a sut y defnyddir y wybodaeth a gesglir o arolygon i gefnogi a datblygu polisi ac i wella gwasanaethau [yma](#).

156. Canlyniad yr Ymgynghoriad (yn ymwneud â pholisi)

157. I'W YCHWANEGU AR ÔL YR YMGYNGHORIAD

158. Diffiniadau:

159. Caiff y diffiniadau gweithio hyn eu llywio gan **y 'Llawlyfr Ymarferwyr ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd' (Participation Cymru, 2012)**.

-
160. Ymgysylltu/Ymgysylltiad: Proses weithredol a chyfranogol lle gall pobl ddylanwadu ar bolisi a gwasanaethau a'u siapia sy'n cynnwys ystod eang o wahanol ddulliau a thechnegau.
161. Ymgynghoriad: Proses ffurfiol lle mae llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau yn gofyn am farn grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb.
162. Cyfranogi/Cyfranogiad: Pobl yn ymwneud yn weithredol â llunwyr polisi a chynllunwyr gwasanaethau o gamau cynnar cynllunio ac adolygu polisiau a gwasanaethau.

163. Gwybodaeth Ychwanegol

164. Cynllun Deisebau (i'w ddatblygu)
165. Canllaw ar y Broses Ddemocrataidd (i'w ddatblygu)
166. Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth Graffu
167. [Cyngor Dinas Casnewydd – Tudalen Lleisiwch eich Barn](#)
168. [Polisi Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion](#)
169. [Cysylltu â'ch Cynghorydd Lleol](#)